**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**Y BIL TROSEDDU A PHLISMONA**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Troseddu a Phlismona ("y Bil") yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin ar 25 Chwefror 2025. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 28 Mawrth 2025 a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar 2 Gorffennaf 2025.

3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau ar 27 Tachwedd, 13 a 23 Chwefror 2026 yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

4. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, ar gael yma: Y Bil Troseddu a Phlismona.

5. Fodd bynnag, mae rhai gwelliannau a gynhwysir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn, a drafodir ym mharagraffau 11-14, yn diwygio fersiwn flaenorol o'r Bil, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin. Mae rhifau'r gwelliannau y cyfeirir atynt yn y paragraffau hynny yn welliannau sydd i'w gweld yma. Mae'r gwelliannau a drafodir ym mharagraffau 15-21 yn diwygio'r fersiwn ddiweddaraf o'r Bil, y ceir dolen ati uchod ac y gellir dod o hyd iddi yma.

## Amcan(ion) y Polisi

6. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw:

- mynd i'r afael â'r epidemig o drais difrifol, cam-drin plant yn rhywiol a thrais yn erbyn menywod a merched sy'n fefl ar ein cymdeithas
- diogelu'r cyhoedd a chanol ein trefi rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau manwerthu a dwyn o siopau
- rhoi i'r heddlu ac eraill y pwerau y mae arnynt eu hangen i frwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu a therfysgaeth
- ailennyn hyder y cyhoedd mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach

## Crynodeb o'r Bil

7. Mae'r Bil yn cael ei noddi gan y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

8. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cwmpasu'r canlynol:

a) Mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol: cyflwyno gorchmynion parch, cyflwyno trosedd benodol o ymosod ar weithiwr manwerthu, cynyddu'r difrifoldeb a'r gosb i gymryd camau llymach ar gyfer dwyn gwerth isel o siopau a throseddau â chyllyll.
b) Rhoi mwy o bwerau i'r heddlu: ehangu'r pwerau i brofi cyffuriau adeg arestio, rhoi pwerau newydd ar gyfer mynediad, chwilio ac atafaelu, rhoi mwy o fynediad i'r heddlu i gronfa ddata DVLA, gwahardd ffermydd SIM a dyfeisiau electronig a ddefnyddir yn achos dwyn cerbydau.
c) Gwella hyder y cyhoedd mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach: rhoi'r hawl i brif swyddogion heddlu apelio yn erbyn canlyniad byrddau camymddygiad, rhoi'r hawl i swyddogion arfau tanio sy'n destun achos troseddol fod yn ddienw.
d) Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched: cryfhau rheoli troseddwyr a gwella'r gofynion hysbysu yn achos troseddwyr rhyw cofrestredig, rhoi'r hawl i ddioddefwyr stelcian wybod pwy yw'r troseddwr, cyflwyno trosedd newydd sef gweinyddu sylwedd niweidiol ('sbeicio').
e) Diogelu plant ac oedolion agored i niwed: cyflwyno dyletswydd newydd i roi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol, creu troseddau newydd o gogio a chamfanteisio troseddol yn erbyn plant, cyflwyno troseddau newydd sy'n gysylltiedig â chymryd delweddau personol heb gydsyniad, gwneud ymddygiad meithrin perthynas amhriodol yn ffactor gwaethygu statudol.
f) Gwella pwerau gwrthderfysgaeth: cyflwyno gorchymyn dargyfeirio ieuenctid newydd, gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth terfysgaeth a argymhellir gan Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth.

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU**

9. Mae fy swyddogion wedi ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion yn y Swyddfa Gartref wrth i'r Bil ddatblygu.

10. Ysgrifennodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona ac Atal Troseddu ataf ar 3 Tachwedd 2025 ac 13 Chwefror 2026 yn amlinellu mesurau newydd a oedd yn cael eu cyflwyno. Gwnaed ymrwymiad i ystyried yn ofalus y ffordd orau o ddiwygio'r gyfraith i sicrhau tegwch ar draws y nodweddion gwarchodedig mewn ymateb i fy llythyr ar 30 Hydref 2025.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2)**

11. Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2), nodais na fyddai gweithwyr argyfwng a dargedir oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hunaniaeth drawsryweddol neu anabledd yn cael eu cwmpasu gan y gwelliannau. Ysgrifennais at y Gweinidog Plismona ar 30 Hydref 2025 yn

gofyn am ehangu'r diffiniad i gynnwys amddiffyniadau ar gyfer pob un o'r pum llinyn a gwmpesir yng nghyfreithiau troseddau casineb y DU. Mae'r gwelliannau presennol yn ehangu'r diffiniad o elyniaeth sy'n berthnasol i'r drosedd hon i gynnwys pob un o'r pum nodwedd.

12. Mae dau welliant arall sy'n ymwneud â Chymal 1 a Chymal 7. Mae'r rhain yn gwneud gwelliannau technegol i gymalau a oedd yn destun y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf. Er nad yw'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf, rwy'n tynnu sylw'r Senedd atynt er tryloywder.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

13. Gwelliannau rhif 34, 36, 462, 463, 465, 466 sy'n dileu darpariaethau diogelu data trech (oherwydd nad yw'r rhain bellach yn angenrheidiol oherwydd y ddarpariaeth diogelu data cyffredinol trech a gyflwynwyd gan adran 106(2) o Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025, a fewnosododd adran 183A yn Neddf Diogelu Data 2018) o'r hyn sydd bellach yn gymal 7 a chymal 209 a oedd yn ddarostyngedig i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn flaenorol.

14. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ofynnol ar gyfer gwelliannau i gymalau a oedd yn ddarostyngedig i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn flaenorol er mwyn cyfleu dileu'r darpariaethau hyn i aelodau'r Senedd, i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r cymalau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

15. Gwelliannau rhif 508A a 508B, sy'n diwygio'r hyn sydd bellach yn gymal 209 o'r Bil ("Regulations made by the Scottish Ministers, the Department of Justice or the Welsh Ministers") i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynir gan Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025, sef y byddai rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil yn cael eu gwneud drwy "offeryn statudol Cymreig" (ac nid "offeryn statudol"), ac y byddai rheoliadau o'r fath yn cael eu gwneud yn ddarostyngedig i'r "weithdrefn annilysu" (ac nid y "weithdrefn negyddol").

16. Gan fod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi ei osod yn flaenorol ar gyfer y cymal hwn, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall yn ofynnol am y rhesymau a nodir uchod er mwyn cyfleu'r newidiadau i aelodau'r Senedd a sicrhau dealltwriaeth lawn o'r cymalau y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer.

17. Gwelliannau 335, 347, 349, 353 sy'n ehangu'r diffiniad o "hostility" yn y troseddau a grëwyd gan welliannau yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin i amddiffyn gweithwyr argyfwng rhag ymddygiad ar sail hil neu grefydd, i gynnwys gelyniaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol.

18. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn cynnwys darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r troseddau yn rhai sydd o fewn pŵer Senedd Cymru i'w gwneud gan eu bod yn droseddau neillffordd a diannod yn unig ac nid o fath a gedwir o dan baragraff 4, Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

19. Mae gwelliannau 339 a 340 yn mewnosod darpariaethau newydd yn y Bil mewn perthynas â cham-drin ar sail anrhydedd. Am y tro cyntaf mae diffiniad statudol o 'honour-based abuse'. Mae gwelliant 339 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddyroddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus ynghylch cam-drin ar sail anrhydedd. Mae'r cyd-destun hwn yn golygu bod y canllawiau yn debygol o gael eu rhoi i ystod eang o awdurdodau cyhoeddus. Bydd hi'n ofynnol i awdurdodau Cymreig datganoledig roi sylw dyledus i'r canllawiau hyn.

20. Gwelliannau 466 a 468, sy'n mewnosod cymal newydd (ynghyd â darpariaethau cychwyn perthnasol) sy'n diwygio adran 60C(3), 61, 62, 62B(2) a 62C(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i leihau'r "prohibited period" pryd mae'n drosedd i unigolyn y gofynnwyd iddo adael neu y rhoddwyd hysbysiad iddo i adael y tir y mae'n byw arno neu y mae'n tresmasu arno gyda cherbyd ddychwelyd i'r tir o ddeuddeg mis i dri mis.

21. Mae'r gwelliannau hyn yn addasu darpariaethau a gyflwynwyd neu a ddiwygiwyd yn flaenorol gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 ("Deddf 2022"). Nododd Llywodraeth Cymru, mewn Datganiad Ysgrifenedig, ei gwrthwynebiad eang i ffocws Deddf 2022 ar "orfodi a throseddoli" a'r ffordd y mae'n tanseilio hawliau Sipsiwn a Theithwyr, gan ffafrio dull o reoli gwersylloedd diawdurdod a oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau a buddsoddi ar gyfer darpariaeth ddigonol o safleoedd awdurdodedig, gan alluogi awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion llety (preswyl a thramwy) cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Felly, er bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi ei osod ar gyfer y Bil wrth ei gyflwyno, gwrthodwyd cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn.

22. Mae'r gwelliannau presennol yn lleihau'r cyfnod dychwelyd gwaharddedig i dri mis. Er bod y pwyslais ar droseddoli, yr wyf wedi ei wrthwynebu yn

flaenorol, yn parhau, yr wyf yn croesawu'r lleihad sylweddol yn yr amserlen hon, gan ei fod yn lleihau yn ystyrlon y risg o droseddoli Sipsiwn a Theithwyr a fydd yn dychwelyd i'r tir oherwydd nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall cyfreithlon. Felly, mae'r gwelliannau arfaethedig hyn yn gam hanfodol a phragmatig ymlaen.

23. Mae cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn berthnasol i faterion datganoledig, ac mae'r darpariaethau hyn yn cael effaith sylweddol ar nifer o bolisïau datganoledig yn unol ag adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

24. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod y gwelliannau 335, 347, 349, 353 yn gymysgedd o faterion datganoledig a rhai a gedwir yn ôl y mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol ar eu cyfer.

25. Mae Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar welliannau 339 a 340 gan eu bod yn ymwneud yn bennaf â materion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, barn Llywodraeth Cymru yw bod dadl bod hyn yn ehangach na hynny, ac yn ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli. Bydd hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus eraill roi sylw i'r canllawiau sydd, yn y cyd-destun, yn debygol o roi swyddogaethau newydd i awdurdodau Cymreig datganoledig hyd yn oed os yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Rwyf i felly o'r farn bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y darpariaethau.

26. Nid yw hi o'r farn bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar welliannau 466 a 468 gan eu bod yn ymwneud â chyfres o faterion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, rwyf o'r farn mai'r ddadl gryfaf yw bod y gwelliannau hyn yn rhoi sylw i faterion datganoledig oherwydd y rhesymau a nodir uchod, ac felly rwy'n gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â hwy.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Troseddu a Phlismona.**

27. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan y DU gan eu bod yn ymdrin â materion datganoledig yn ogystal â materion a gedwir yn ôl ac mae ein cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon gan y DU yn ei gwneud yn bosibl i amcanion polisi gael eu cyflawni yn y modd mwyaf effeithiol. Byddai'r darpariaethau newydd yn sicrhau bod gweithwyr argyfwng yng Nghymru yn cael yr un amddiffyniad â gweithwyr cyfatebol yn Lloegr.

28. Mae'r ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â'r weledigaeth i wneud Cymru yn wlad wrth-hiliol a nodir yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022) ac yn cefnogi'r nod llesiant o greu gwlad fwy cyfartal o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hefyd yn adlewyrchu gweledigaeth y Cynllun Hawliau Pobl Anabl (2025) ar gyfer Cymru lle mae gan bobl anabl hawliau, cynhwysiant a chyfranogiad cyfartal, ac uchelgais y Cynllun Gweithredu LHDTC+ (2023) i wneud Cymru y genedl fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+, lle nad oes ofn, gwahaniaethu na chasineb. Mae'n cefnogi ein gweledigaeth fel y'i nodir yn Strategaeth Genedlaethol VAWDASV 2022–2026 a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

29. Mae ehangu'r diffiniad o weithwyr argyfwng a dargedir oherwydd eu hil neu grefydd i gynnwys gelyniaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol yn welliant i'w groesawu.

30. Mae'r gwelliannau mewn perthynas â gwersylloedd diawdurdod, lleihau'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer dychwelyd i'r tir yn ôl i dri mis, yn welliant i'w groesawu. Mae'r gostyngiad amser yn lleihau yn ystyrlon y risg o droseddoli Sipsiwn a Theithwyr sy'n dychwelyd i dir dim ond oherwydd nad oes ganddynt unman arall cyfreithlon i fynd. Felly, mae'r gwelliant arfaethedig yn gam hanfodol a phragmataidd.

31. Croesawir yn gyffredinol y gwelliannau mewn perthynas â diffiniad o gam-drin ar sail anrhydedd ac ar ganllawiau amlasiantaeth ar gyfer cam-drin ar sail anrhydedd. Mae'n dda bod rhanddeiliaid yng Nghymru wedi bod yn ymwneud â datblygu'r diffiniad o gam-drin ar sail anrhydedd, sydd â'r bwriad o roi fframwaith cyffredin a chyson i asiantaethau rheng flaen ar gyfer adnabod yr achosion hyn ac ymateb iddynt. Mae cynnwys canllawiau amlasiantaeth i gefnogi ffyrdd o adnabod, atal, rhannu gwybodaeth ac ymateb yn gydgysylltiedig ar draws asiantaethau hefyd yn gam i'w groesawu. Fodd bynnag, gan y bydd hyn yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus yn gyffredinol, bydd angen i Gymru fod yn rhan agos o'r gwaith o gam cynharaf datblygu'r canllawiau hyn.

## Goblygiadau ariannol

32. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i’r Bil hwn.

## I gloi

33. Rwyf o’r farn ei bod yn briodol mynd i’r afael â’r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU. Mae'r darpariaethau newydd yn sicrhau bod gweithwyr argyfwng yng Nghymru yn cael yr un amddiffyniad â gweithwyr cyfatebol yn Lloegr. Mae'r ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â'r weledigaeth i wneud Cymru yn wlad wrth-hiliol fel a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r nod llesiant ar gyfer Cymru sy'n wlad fwy cyfartal fel a roddwyd ar waith gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n cefnogi ein gweledigaeth fel y'i nodir yn Strategaeth Genedlaethol VAWDASV 2022–2026 a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

34. Mae'r gwelliannau yn lleihau'r cyfnod dychwelyd gwaharddedig i dri mis. Er fy mod yn parhau i wrthwynebu'r ffocws ar droseddoli, rwy'n croesawu'r amserlen fyrrach hon gan ei bod yn lleihau'r risg o droseddoli Sipsiwn a Theithwyr, nad oes ganddynt ddewis arall cyfreithlon.

35. Felly, rwy'n argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Jane Hutt AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip**
**3 Mawrth 2026**